# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc<br>*Clerk*<br>**Caroline Jones**<br>01248 602131<br>CyngorLlanllechid@ogwen.org | 26 Stryd Fawr<br>Bethesda<br>Gwynedd<br>LL57 3AE |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Festri Capel Bethlehem, Talybont ar nos Iau y 14fed o Fawrth am 1830yh.**

**1.Trafodaeth gyda Naomi Jones Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.**

Crynodeb o hyn a drafwyd.

**Giat Mynydd Rachub:** Mae'r giat wedi'i chynhyrchu a'r twll wedi'i wneud. Caiff ei gosod o fewn tua 3 mis a'i haddasu yn ei lle.
**Clirio eithin**: Bydd hyn yn digwydd dros Gaeaf 2024-25 a bydd Ned Feesey (Ymddiriedolaeth Genedlaethol) yn cysylltu efo'r Cyngor Cymuned i drafod a threfnu. Bydd y gwaith yn digwydd drwy gyfuniad o dorri gyda pheiriannau a thorri gyda llaw ar raddfa ymarferol a bydd 'fire breaks' yn cael eu creu. Bydd y gwaith yn cydfynd efo'r hel mynydd.
**Trac Moel Wynion**: Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gwirio os ydi'r dyfynbrisiau a derbyniwyd yn dal i sefyll cyn bwrw ymlaen. Does dim amserlen bendant ar gyfer y gwaith ond tua gwanwyn/haf 2024.
**Buarthau:** dim manylder cadarn ar hwn eto – dibynnol ar ddymuniadau'r porwyr a chyllid. Os yn bosib byddai'n dda dod yn ol i drafod efo'r Cyngor ym mis Medi?
**Merlod:** mae Abbie Edwards wedi'i chomisiynu i hwyluso'r broses o sefydlu Cymdeithas ar gyfer ardal Llanllechid. Mae'r gwaith yn gymhleth a gofynwyd i ni fel Partneriaeth y Carneddau hwyluso'r camau cyntaf i'r Cyngor Cymuned ddeall yn well y gofynion a'r sgop.
**Ffensio –** fel y buarthau, dim penderfyniad cadarn ond byddwn yn falch o drafod eto fis Medi.
**Archaeoleg –** gofynwyd i'r Cyngor roi gwybod os oes unrhyw safleoedd archaeolegol angen mwy o sylw, e.e. clirio llystyfiant ac ati…
**Lleisiau'r Carneddau –** bydd Siwan Llynor mewn cysylltiad i drefnu rhagor o recordio a datblygu'r prosiect.

**2. PRESENNOL:**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Lowri Evans
Y Cynghorydd Wyn Bowen-Harris
Y Cynghorydd Alun Thomas
Y Cynghorydd Geraint Hughes

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Jên Morris
Y Cynghorydd Dafydd K Jones
Y Cynghorydd Kevin Williams

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Y Cadeirydd Kevin Williams.

**3. Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Robin Williams
Y Cynghorydd Rhydian Williams

**4. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed o Chwefror 2024.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion**

**5.1 Twll yn y ffordd ger Wern Bach** - Ymateb gan Ian Morgan 8/12/24 Fyddai wedi trefnu cyfarfod gyda'r tir berchennog erbyn diwedd mis Chwefror er mwyn cael y gwaith papur mewn lle i gyflawni'r gwaith. Ebost wedi ei yrru i Ian Morgan ar yr 8/3/24. Dim diweddariad.

**5.2 Arwyddion Maes y Groes –** Cafwyd cadarnhad gan Ian Morgan, Cyngor Gwynedd fod arwyddion Maes y Groes ar rhestr archeb y Cyngor. Nid yw'r rhestr wedi ei gyflwyno i'r cyflenwyr hyd yma. Dim diweddariad.

**5.3 Arwyddion Cyflymder Maes y Groes –** Trafodwyd ffigyrau mesur cyflymder a dderbynwyd gan Andrew Gregson, Cyngor Gwynedd. Dyddiadau yr arolwg 15/12/2023 – 21/12/2023. (Eitem 8 yn y gohebiaeth). Nid yw cyflymder y cerbydau yn peri pryder i'r adran. Er hynny mae'r canlyniadau yma wedi ei gyrru ymlaen i Tim Ganbwyll, Heddlu Gogledd Cymru am adborth.

**5.4 Bin Halen Bryn Derwas** - Ymateb gan Mr Ian Morgan 8/12/24. Ceisiadau am finiau halen o'r newydd dal yn cael eu cysidro, oherwydd nifer y ceisiadau mae'n cymryd amser i weithio drwyddynt i gyd.
Y Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Trafodwyd ffigyrau mesur cyflymder a dderbynwyd gan Andrew Gregson, Cyngor Gwynedd. Dyddiadau yr arolwg 15/12/2023 – 21/12/2023. (Eitem 8 yn y gohebiaeth). Nid yw cyflymder y cerbydau yn peri pryder i'r adran. Er hynny mae'r canlyniadau yma wedi ei gyrru ymlaen i Tim Ganbwyll, Heddlu Gogledd Cymru am adborth. Gwynedd i adrodd fod dwr yn llifo i lawr o Bryn Derwas yn gyson. 16/1/24. Ebost wedi ei yrru i Ian Morgan ar yr 8/3/24. Dim diweddariad.

**5.5 Safle bws Talybont -**Y Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Celfyddydau Cymru yn holi am fanylion unrhyw prosiectau celf lleol. Disgwyl ymateb.
Y Cyng Wyn Bowen Harris wedi trafod y prosiect gyda artist lleol, Elen Williams.
Y Cyng Wyn Bowen Harris wedi cyflwyno cais i 'Gwynedd Creadigol' am grant o £500 at gostau y prosiect. Y Cynghor Cymunedol yn cytuno mewn egwyddor i gyfrannu at y prosiect, yn ddibynnol ar y grant.

**5.6 Dwr yn llifo Chwarel y Bryn** – Cyfarfu Eilir Morgan, Cyngor Gwynedd a'r Cyng Kevin Williams yn y safle. Mae'r gwaith ar rhestr gwaith Cyngor Gwynedd.

**5.7 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen a Ty'n Hendre –** Cyfarfu Eilir Morgan, Cyngor Gwynedd a'r Cyng Kevin Williams yn y safle. Mae'r gwaith ar rhestr gwaith Cyngor Gwynedd

**5.8 Dwr ar y ffordd Coed Uchaf, Lôn Goed -** Cyfarfu Eilir Morgan, Cyngor Gwynedd a'r Cyng Kevin Williams yn y safle. Mae'r gwaith ar rhestr gwaith Cyngor Gwynedd

**5.9 Diffyg biniau baw ci ar lwybr beicio Wîg –** Ebost gan y Rheolwr Gwasanaethau Stryd. Mae'n disgwyl am fanylion pellach gan y datblygwyr, gan gynnwys map sy'n dangos lleoliadau mynediadau ayyb. Maent hefyd eisiau cynnal patrolau ar hyd y llwybr newydd ac adnabod maint unrhyw broblemau a lleoliadau addas ar gyfer arwyddion rhybudd "Glanhewch".Mi fydd hefyd yn gwneud ymholiadau ynglŷn â'ch cais am fin wrth ymyl Fferm Wig. Ebost arall wedi ei yrru 2/2/24 yn gofyn am ddiweddariad. Dim diweddariad. Y Clerc i gysylltu a'r adran briffyrdd.

**5.10 Tai i bobl lleol –** Y Cynghorydd Lowri Evans wedi drafftio llythyr i'w hanfon at Mr Gibbard a'r Cynghorydd Siencyn yn codi pryderon sydd gan Cyngor Cymuned Llanllechid am dai fforddiadwy yn Nyffryn Ogwen. Y Clerc wedi derbyn cyfathrebiad gan cynghorau Bethesda a Llandygai yn cefnogi. Y Clerc i anfon y llythyr at Mr Gibbard a'r Cynghorydd Siencyn.

**5.11 Ysbwriel –**Swyddog Cynhaliaeth wedi codi ysbwriel ar y ffordd rhwng sgwâr Llanllechid a Chwarel Bryn. Disgwyl anfoneb.

**5.12 Ffens bren ger pont Allt Ty'n Hendre –** Ffens wedi pydru. cafodd y mater yma ei drosglwyddo i sylw ei'n swyddogion strwythurau ar y pryd oherwydd y gylfat gyfagos. Mae'r rel uchaf i weld wedi ei ddifrodi oherwydd bod garreg coping wedi disgyn arno, ond nid yw'n cyflwyno perygl i ddefnyddwyr y ffordd yn ei gyflwr presennol. Mi wneith yr arolygwr codi archeb i adnewyddu'r ffens unai drwy osod coed newydd neu ail-osod y coed presennol, ac ail-osod y garreg coping yr un pryd. (8/2/24). Dim diweddariad.

**5.13 Twll yn y ffordd Ffarm Penybryn** - Cyngor Gwynedd wedi bod allan yn asesu'r broblem. Nid yw'r mater yn cael ei ystyried fel un brys, ond mae trefniadau mewn lle i wneud y gwaith pan fydd adnodd ar gael.

**5.14 Bin wrth Mynwent Llanllechid -** wedi ei thynnu lawr. Adroddiad wedi ei yrru ymlaen i Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd 5/3/24..

**15.15 Bin baw ci wrth Cae chwarae Talybont** - wedi ei thorri. Adroddiad wedi ei yrru ymlaen i Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd 5/3/24.

**6. Adroddiad Cyngor Sir**

Dim adroddiad.

**7. Taliadau**

Penderfynwyd peidio adnewyddu aelodaeth Un Llais Cymru.

**8. Y Mynydd**

Trafodaeth gyda Naomi Jones, Partneriaeth y Carneddau, gweler uchod.

PCSO Rhys Evans o adran Troseddau Gwledig yr Heddlu yn awyddus i ymuno ac un cyfarfod. Y Clerc i'w gwahodd i gyfarfod Mis Mai.

**9. Cae Peldroed/Cae Chwarae Talybont**

**9.1 Peiriant torri gwair –** Is–Bwyllgor Cyllid wedi neilltuo £6000 am beiriant torri gwair. Y Cyng Kevin Williams am wneud ymholidau gyda Mona Tractors.

**9.2** Cyfarfu Y Cynghorwyr Evan Jones a Wyn Bowen Harries a Sion Eifion Jones (Swyddog Prosiect Cymunedol, ADRA) a Michael Evans (Cydlynydd Rheoli Tir, ADRA). Mae ADRA yn cyflwyno grant hyd at £1,000 tuag at brosiectau cymunedol. Ond, bydd raid i'r cais ddod gan banel etholedig o'r gymuned wedi ei gofrestru ac efo cyfansoddiad a chyfrif banc. ADRA am wirio hyn.
Gallai'r man parcio fod yn broblemus o safbwynt hawl cynllunio ond i gysylltu â Steffan Jones, Uwch Reolwr Priffyrdd i drafod hyn. Disgwyl diweddariad.

**9.3 Contractwyr** - Cafwyd rhai dyfynbrisiau gan contractwyr am y gwaith. Yn aros am ddyfyniadau pellach.

**10. Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mawrth 2024'

**10.1 Arolwg Cyhoeddus mewn cysylltiad â'r Gymraeg.** Cynghorwyr i gwblhau yn unigol.
**10.2 Adroddiad mesur cyflymder Uwch beirianydd traffig Gwynedd.** Trafodwyd ffigyrau mesur cyflymder a dderbynwyd gan Andrew Gregson, Cyngor Gwynedd. Dyddiadau yr arolwg 15/12/2023 – 21/12/2023. Nid yw cyflymder y cerbydau yn peri

pryder i‘r adran. Er hynny mae’r canlyniadau yma wedi ei gyrru ymlaen i Tim Ganbwyll, Heddlu Gogledd Cymru am adborth.
**10.3 Ras Copaon 1000m Cymru** Mynegwyd pryderon oherwydd bod amseriad y ras yn cyd-daro ag amser sensitif yn y caledar ffermio. Y Clerc i ofyn wrth y trefnwyr i gysylltu gyda Y Cyng Kevin Williams i drafod.
**10.4 Apel am rhodd Marie Curie.** Cytynwyd rhodd o £50.

**11. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Adroddwyd Y Cyng Wyn Bowen Harris ei fod wedi penderfyny ymddiswyddo oddi ar bwrdd rheoli Ynni Ogwen.

**12. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C21/0078/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C23/0382/21/DT**
Fferm Tyddyn Isaf, Tal Y Bont, Bangor
Dymchwel adeilad allanol ar ochr yr adeilad (adfail) a chodi estyniad newydd ar yr ochr a lolfa haul ar cefn ty annedd.
**Penderfyniad** Ar y gweill

**NP3/21/102A**
Fferm Y Bryn, Llanllechid. LL57 3LG
Estyniad a newidiadau i annedd, addasu adeilad allanol ynghlwm yn llety gwyliau hunanarlwyo tymor byr a chreu mynedfa newydd i gerbydau
**Penderfyniad** Caniatawyd gyda amodau

**Y Cyng. Kevin Williams yn datgan diddordeb.**

**Ceisiadau Newydd**

Dim

Arwyddwyd gan y Cadeirydd ___________________________________

## 13. Materion Brys/Eraill

Dim

## 14. Adroddiad Llais Ogwan

Cynhelir cyfarfod Mis Mawrth yn Festri Capel Bethlehem, Talybont ar Nos Iau, Mawrth14fed.
Cadeiriwyd y cyfarfod gan Y Cynghorydd Kevin Williams.
Roedd y Cynghorwyr yn falch o weld Y Cynghorydd Alun Thomas yn nol yn dilyn ei ddamwain.
Croesawyd Naomi Jones o Barc Cenedlaethol Eryri i'r cyfarfod a cafwyd diweddariad ar nifer o brosiectau sydd gan y Parc.
Adroddwyd fod Giat Mynydd Rachub wedi'i chynhyrchu a'r twll wedi'i wneud. Caiff ei gosod o fewn tua 3 mis a'i haddasu yn ei lle.
Bydd Clirio eithin yn digwydd dros Gaeaf 2024-25. Bydd y gwaith yn cydfynd efo'r hel mynydd.
Trac Moel Wynion. Does dim amserlen bendant ar gyfer y gwaith ond tua gwanwyn/haf 2024.

Mae'r Cyngor bellach yn y broses o brynnu mower i'w defnyddio i dorri cae peldroed Talybont. Maent eisioes wedi prynnu cwt i gadw y peiriant.
Rydym yn chwilio am unrhyw wirfoddolwyr a allai helpu o bryd i'w gilydd gyda thorri'r gwair. Cysylltwch a cyngorllanllechid@ogwen.org os gwelwch yn dda.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau 11fed o Ebrill.